## GWASANAETHAU OFFTHALMIG CYFFREDINOL

# LLAWLYFR GWASANAETH:

DYDDIAD GWEITHREDU: AMRYWIOL YN ÔL BWRDD IECHYD

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu strwythur sy'n ei gwneud yn bosibl cyflawni WGOS 5 IPOS Brys.

Nid yw'n cymryd lle barn na chyfrifoldeb proffesiynol.

**Dolenni defnyddiol:**

| | |
|---|---|
| I weld fersiwn ddiweddaraf y Llawlyfr Clinigol WGOS hwn | https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/ |
| Sut i gofrestru i gynnig WGOS | https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/ |
| Ymholiadau am hyfforddiant, cyrsiau ac asesiadau | heiw.optometry@wales.nhs.uk |
| Ymholiadau am dalu a chofrestru | nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk |
| Cwestiynau yn ymwneud ag WGOS | GOSWClinical.Lead@wales.nhs.uk |

**Rhybudd:**

Efallai nad dyma'r fersiwn ddiweddaraf os gwnaethoch chi lawrlwytho neu argraffu'r ddogfen.

Ewch i https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/ i gael y fersiwn gyfredol.

# WGOS 5 IPOS Brys

## 1.0 Rhagnodi Annibynnol

1.1 Mae optometryddion sydd wedi cwblhau cwrs hyfforddi a gymeradwyir gan y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) ac sydd â'r arbenigedd rhagnodi annibynnol (IP) wedi'i nodi yn erbyn eu henw ar gofrestr yr Optometryddion yn gallu rhagnodi unrhyw feddyginiaethau trwyddedig ar gyfer cyflyrau ociwlar sy'n effeithio ar y llygad a'r meinweoedd o amgylch y llygad, o fewn eu maes arbenigedd a chymhwysedd cydnabyddedig. Nid yw hyn yn cynnwys cynhyrchion meddyginiaethol sy'n gyffuriau rheoledig neu gyffuriau ar gyfer gweinyddu parenterol neu'r ddau.

1.2 Gall Optometryddion IP ragnodi o fewn eu cymhwysedd ar gyfer unrhyw glaf sy'n ymgynghori â nhw naill ai mewn gwasanaeth GIG neu wasanaeth preifat gan ddefnyddio pad presgripsiwn y GIG pan fo gan y claf hawl i bresgripsiwn GIG.

1.3 Cyfeiriwch at Ganllawiau Rheoli Clinigol Coleg yr Optometryddion am enghreifftiau o gyflyrau y gellir eu rheoli mewn gofal sylfaenol. Nid yw'r rhain yn hollgynhwysfawr ac ni fwriedir iddynt gyfyngu ar y cyflyrau y gall Optometryddion eu rheoli mewn gofal sylfaenol, ar yr amod bod y triniaethau'n seiliedig ar dystiolaeth ac o fewn cwmpas ymarfer yr Optometrydd neu'n unol ag egwyddorion y Coleg ar ehangu cwmpas ymarfer.
https://www.college-optometrists.org/guidance/clinical-management-guidelines.html
https://www.college-optometrists.org/clinical-guidance/supplementary-guidance/expanding-scope-of-practice-optometrists

1.4 Cyfeiriwch at gyffurlyfr rhagnodi'r Bwrdd Iechyd perthnasol i weld pa gyffuriau y dylid eu rhagnodi ar bresgripsiynau'r GIG. Mae cyffurlyfrau yn cynnwys cyngor ar driniaethau cyntaf/ail drywydd, rhagnodi oddi ar y cyffurlyfr a chyngor perthnasol gan Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan. https://cttcg.gig.cymru/

1.5 Gweler gwefan Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) am ffurflenni i wneud cais i'r Bwrdd Iechyd perthnasol am bad presgripsiwn GIG.
https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-gofal-sylfaenol/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-offthalmig/

1.6 Cysylltwch â'r Bwrdd Iechyd perthnasol i gael canllawiau lleol ar ddiogelwch padiau presgripsiwn GIG.

## 2.0 Rhagnodi Annibynnol gan Optometryddion WGOS 5

2.1 Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i fwriadu ar gyfer mireinio/rheoli atgyfeirio uwch mewn optometreg gofal sylfaenol. Y disgwyliad yw y bydd lefelau uwch o reolaeth, triniaeth ac atal mewn gofal llygaid sylfaenol a gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau offthalmoleg. Bwriedir darparu gwasanaeth argyfwng llygaid mewn gofal sylfaenol yn unol â'r *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol*. Mae'r llwybr hwn ar gyfer cleifion sydd angen gofal llygaid acíwt yn unig. Nid yw monitro gan Optometryddion â chymwysterau perthnasol neu ryddhau cleifion iddynt, e.e. ar gyfer glawcoma, wedi'i gynnwys gan y llwybr hwn. Bydd gwasanaeth ar gyfer monitro gan Optometryddion gyda chymwysterau perthnasol neu ryddhau cleifion iddynt ar gyfer trin glawcoma a/neu ragnodi annibynnol i reoli cleifion yn annibynnol yn

cael ei gyflwyno yn ddiweddarach.

2.2 Nid yw'r gwasanaeth hwn yn disodli'r Gwasanaeth Anafiadau Llygaid mewn gofal eilaidd. Bwriedir iddo ddarparu capasiti ychwanegol mewn gofal sylfaenol a lleihau'r galw am ofal eilaidd trwy hidlo allan cleifion y gellir eu rheoli gan Optometrydd IP.

2.3 Bydd Optometryddion IP WGOS 5 yn gwneud Asesiadau Brys WGOS 5 IPOS a lle bynnag y bo modd yn cynnig triniaeth a rheolaeth, naill ai: i gleifion y maent yn eu hadnabod yn ystod brysbennu WGOS sydd, yn eu barn glinigol, â symptomau acíwt a/neu hanes sy'n cyfiawnhau IPOS Brys; neu yn dilyn atgyfeiriad cymwys gan Optometrydd WGOS nad yw'n ragnodwr annibynnol neu Optegydd Lensys Cyffwrdd (CLO) WGOS; neu wasanaeth Offthalmoleg. Gellir hawlio ffi frys WGOS 5 IPOS ar gyfer yr Asesiad hwn hyd yn oed os na chaiff meddyginiaeth ei rhagnodi. Gellir hawlio'r ffi yn annibynnol ar y penderfyniad rhagnodi.

2.4 Ni ellir hawlio ffi frys IPOS pan fydd Optometryddion IP yn ysgrifennu presgripsiwn GIG ar gyfer problemau llygaid nad ydynt yn acíwt a nodir yn ystod ymarfer arferol, e.e. os nodir yr angen am bresgripsiwn GIG mewn prawf golwg preifat.

2.5 Os bydd yr Optometrydd IP yn nodi arwydd/symptom yn ystod cyfnod gofal arall sy'n gofyn am Asesiad Brys IPOS, gallant ddisodli hawliad y GIG neu ffi breifat ar gyfer y cyfnod gofal arall hwnnw gyda chais am WGOS 5 IPOS Brys. Dylai'r cyfnod gofal arall gael ei aildrefnu a dylid ei nodi'n glir fel cyfnod gofal ar wahân yng nghofnod y claf. Os yw'n briodol, gall y cyfnod wedi'i aildrefnu ddigwydd yn syth ar ôl y cyfnod gofal IPOS Brys. Rhaid i Asesiad IPOS Brys barhau i fod yn adnabyddadwy fel cyfnod gofal ar wahân yng nghofnodion y claf.

| **Y broses Dilysu ar ôl Talu (PPV):**<br>Rhaid i gyfnodau gofal WGOS 5 IPOS brys fod yn amlwg yng nghofnod y claf, neu fel arall ni ellir adennill y ffi. |
|---|

2.6 Bydd Byrddau Iechyd yn gyfrifol am gydgysylltu'r gwasanaeth hwn yn lleol gan gynnwys cymeradwyo practisiau optometreg IP ar gyfer darparu gwasanaethau.

2.6.1 Bydd Bwrdd Iechyd yn ceisio barn y Pwyllgor Optometrig Rhanbarthol ar gyfer ei ardal wrth ystyried unrhyw ofynion sylfaenol o ran argaeledd. Mae hyn yn cynnwys effaith y gofynion hyn ar Optometryddion sydd newydd gymhwyso fel rhagnodwr annibynnol ac Optometryddion IP sydd o bosibl yn gweithio mewn practisiau gwahanol ar ddiwrnodau gwahanol.

2.6.2 Bydd Byrddau Iechyd yn nodi unrhyw ofynion argaeledd gofynnol ar gyfer darparu gwasanaethau gan ddefnyddio templed.

2.6.3 Gall Byrddau Iechyd dynnu cymeradwyaeth ar gyfer darparu gwasanaeth yn ôl o bractisiau optometreg IP sy'n methu â bodloni unrhyw ofynion gorfodol a/neu nad ydynt yn cydymffurfio â'r Llawlyfr WGOS 5 IPOS Brys.

2.6.4 Bydd Byrddau Iechyd yn sicrhau bod eu cyffurlyfrau ar gael i bractisiau optometreg ac yn rhoi diweddariadau yn ôl yr angen.

## 3.0 WGOS 5 IPOS Brys – meini prawf cymhwyster

3.1 Bydd Optometrydd IP WGOS 5 yn derbyn atgyfeiriadau lle bo'n briodol oddi wrth:

3.1.1 Optometrydd nad yw'n Rhagnodwr Annibynnol neu Optegydd Lensys Cyffwrdd (CLO) sydd wedi gwneud ymgynghoriad WGOS pan fo'n debygol o arwain at reoli problem na all Optometrydd WGOS nad yw'n Rhagnodwr Annibynnol neu CLO ei ddarparu. Mae hyn yn cynnwys sefyllfa pan fo claf yn dewis atgyfeiriad at IPOS Brys ar gyfer cyflyrau y gellir eu rheoli o fewn cwmpas ymarfer WGOS 2 fel dewis amgen i gael archeb ysgrifenedig i brynu meddyginiaeth yn breifat, prynu meddyginiaeth yn breifat yn y practis neu'r fferyllfa, defnyddio'r Cynllun Anhwylderau Cyffredin neu fynd i'w practis meddyg teulu ar gyfer presgripsiwn GIG.

3.1.2 Gwasanaeth Offthalmoleg sydd wedi brysbennu heb archwiliad, neu wedi trin claf, ac sy'n ystyried bod y claf yn addas ar gyfer WGOS 5 IPOS ac na ellir ei reoli o fewn cwmpas ymarfer WGOS 2. Mae gwasanaethau offthalmoleg yn cadw'r gallu i frysbennu heb archwiliad a barnu bod y claf yn addas ar gyfer WGOS 2, a chyfeirio'r claf at Bractis Optometreg, a fydd yn rheoli'r claf yn WGOS fel y bo'n briodol.

3.2 Ni fydd Optometrydd IP WGOS 5 yn derbyn atgyfeiriadau yn y sefyllfaoedd canlynol:

3.2.1 atgyfeiriadau ar gyfer cleifion y maent yn penderfynu eu bod yn debygol o fod angen triniaeth frys mewn gofal eilaidd ar gyfer problem llygaid y mae Optometrydd IP WGOS 5 yn annhebygol o allu ei rheoli e.e. trawma treiddgar. Dylai Optometryddion WGOS nad ydynt yn Rhagnodwyr Annibynnol neu CLO atgyfeirio cleifion at Wasanaeth Argyfwng Llygaid gofal eilaidd yn unol â llwybrau lleol.

3.2.2 ar gyfer cleifion y maent yn penderfynu eu bod yn debygol o fod angen llwybr mwy priodol. Dylai'r Optometrydd WGOS nad yw'n Rhagnodwr Annibynnol neu CLO atgyfeirio at y meddyg teulu, gwasanaeth fasgwlaidd, gwasanaeth niwroleg neu lwybr lleol arall fel y bo'n briodol.

3.3 Gall yr optometrydd IP WGOS 5 ddarparu'r gwasanaeth hwn i, neu newid o WGOS 2 i'r gwasanaeth hwn i, unrhyw glaf â symptomau acíwt os yw'r claf, yn ei farn glinigol, yn debygol o fod angen triniaeth ar gyfer problem na ellir ei darparu gan rywun nad yw'n Optometrydd IP.

3.4 Gellir darparu Asesiadau WGOS 5 IPOS Brys neu Apwyntiadau Dilynol fel gwasanaeth symudol, os yw claf yn gymwys ar gyfer gwasanaethau symudol a bod gan y Contractwr Gytundeb Gwasanaeth Symudol gyda'r Bwrdd Iechyd wedi'i alinio i'r lleoliad lle mae'r gwasanaeth i'w ddarparu. Mewn achosion o'r fath dylid hawlio'r ffi am wasanaeth symudol.

3.4.1 Mae gan gleifion hawl i wasanaeth symudol os yw amgylchiadau yn ymwneud â'u salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd yn ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol iddynt dderbyn gwasanaethau offthalmig sylfaenol mewn mangre gofrestredig.

3.4.2 Dylai'r Optometrydd WGOS nad yw'n Rhagnodwr Annibynnol atgyfeirio'r claf at Optometrydd IP WGOS 5 symudol ar gyfer Asesiad symudol pan fo angen un. Dylai Optometrydd IP WGOS 5 atgyfeirio'r claf at Optometrydd IP WGOS 5 sy'n cynnig gwasanaeth symudol os nad yw'n gallu darparu apwyntiad dilynol symudol pan fo angen un.

3.4.3 Os nad yw claf yn bodloni'r meini prawf uchod ond yn dymuno i gael gwasanaeth symudol, gall Optometrydd IP WGOS 5 y mae gan ei Gontractwr Gytundeb Gwasanaeth Symudol gyda'r Bwrdd Iechyd y mae'r lleoliad lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn gysylltiedig ag ef, ddarparu apwyntiad mewn lleoliad symudol a hawlio'r ffi WGOS 5 IPOS Brys neu ffi ar gyfer Apwyntiad IPOS Brys Dilynol priodol, ond ni fydd modd hawlio ffi symudol.

3.4.4 Dim ond yng Nghymru y gellir cyflawni gwasanaethau symudol WGOS 5.

3.4.5 Rhaid i'r rheswm dros fod angen gwasanaeth symudol gael ei gofnodi yng nghofnod y claf.

3.4.6 Nid oes gan gleifion mewnol ysbytai hawl i wasanaethau symudol WGOS 5.

3.4.7 Ni chaiff Contractwr hawlio WGOS 5 fel gwasanaeth symudol oni bai:

- bod ganddo Gytundeb Gwasanaeth Symudol gyda'r Bwrdd Iechyd perthnasol;
- bod y claf neu ei ofalwr yn gofyn am wasanaeth symudol; a
- bod amgylchiadau'r claf mewn perthynas â'i salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd yn ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol iddo gael gwasanaethau offthalmig sylfaenol mewn mangre gofrestredig.

3.4.8 Ni ellir darparu WGOS 5 mewn Ysbytai, Carchardai nac unedau diogel. Mae darparu gofal llygaid yn y lleoliadau hyn y tu allan i gwmpas WGOS 5 ac mae gan Fyrddau Iechyd eu cytundebau gwasanaeth eu hunain.

3.4.9 Ni ellir cyflwyno WGOS 5 mewn Ysgolion Arbennig.

3.4.10 Nid oes angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw i ddarparu gwasanaeth symudol. Fodd bynnag, dylai'r Ymarferydd allu cyfiawnhau'n rhesymol pam y cafodd ei gynnal, a rhaid i'r rheswm dros yr asesiad neu apwyntiad dilynol symudol gael ei nodi'n glir ar gofnod y claf.

## 4.0 Asesiadau Brys IPOS ac Apwyntiadau Dilynol – Cymhwyster Optometryddion

4.1 Rhaid i Optometrydd IP WGOS 5 fodloni'r canlynol:

- bod ar restr gyfun yng Nghymru;
- bod wedi'i gofrestru gan y Cyngor Optegol Cyffredinol gyda'r arbenigedd Rhagnodi Annibynnol; ac
- meddu ar bad rhagnodi WP10 yn y practis y mae'r Contractwr wedi'i leoli ynddo.

## 5.0 Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Llwybr – Optometryddion WGOS nad ydynt yn Rhagnodwyr Annibynnol ac Optometryddion Lensys Cyffwrdd

5.1 Gall trosglwyddo gofal i WGOS 5 IPOS ddigwydd pan fo:

5.1.1 Optometrydd nad yw'n Rhagnodwr Annibynnol neu CLO WGOS yn nodi na ellir rheoli cyflwr o dan WGOS 2 a bod angen ei atgyfeirio ymlaen at Optometrydd IP WGOS 5 ar gyfer Asesiad a rheoli a all gynnwys meddyginiaeth y gellir ei rhagnodi; neu

5.1.2 Mae'r gwasanaeth offthalmoleg yn nodi y gallai cyflwr gael ei reoli mewn gofal sylfaenol ac yn rhyddhau'r claf o'r ysbyty i Optometrydd IP WGOS 5 ar gyfer asesiad a rheoli a all gynnwys meddyginiaeth y gellir ei rhagnodi.

5.2 Mae WGOS yn hwyluso atgyfeiriadau i weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall yn dilyn yr archwiliad, gan gynnwys at Optometrydd arall. Gall atgyfeiriad at wasanaeth IPOS Brys fod naill ai:

5.2.1 o un practis i un arall (atgyfeiriad rhwng practisiau);

5.2.2 rhwng Optometryddion mewn practis (atgyfeirio o fewn practis); neu

5.2.3 o wasanaeth Offthalmoleg i optometrydd (e.e. rhyddhau o'r Gwasanaeth Argyfwng Llygaid).

Dylid gwneud atgyfeiriadau yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y bwrdd iechyd.

5.3 Rhaid i'r atgyfeiriwr sy'n trosglwyddo gofal i IPOS Brys (boed yn Optometrydd nad yw'n Rhagnodwr Annibynnol neu CLO mewn Gofal Sylfaenol, neu ryddhau o Wasanaeth Argyfwng Llygaid mewn ysbyty) ffonio a siarad â'r practis IP i wirio argaeledd gwasanaeth IPOS Brys ac, os oes apwyntiad ar gael, i drafod yr achos fel bod yr Optometrydd IP yn gallu penderfynu a ddylai'r atgyfeiriad gael ei dderbyn gan y practis IP. Ni ddylai'r practis nad yw'n bractis IP anfon y claf i'r practis IP heb drafod â'r practis IP ymlaen llaw. Nid yw'n ofynnol i bractisiau IP sydd wedi bodloni'r lefel isafswm o atgyfeiriadau dderbyn atgyfeiriadau ychwanegol, gan gynnwys drwy aildrefnu cleifion eraill i gynyddu argaeledd, hyd yn oed os byddai'r atgyfeiriad yn gymwys.

5.4 Os yw'r Optometrydd IP WGOS 5 sy'n derbyn y trosglwyddiad gofal o'r farn na ellir rheoli'r claf yn briodol yn y practis IP, bydd Optometrydd IP WGOS 5 yn cynghori'r atgyfeiriwr i wneud atgyfeiriad at y Gwasanaeth Argyfwng Llygaid neu lwybr lleol arall. Os yw'r atgyfeiriwr yn ansicr a all yr Optometrydd IP drin y cyflwr llygaid, dylai ffonio'r practis IP yn gyntaf i drafod yr achos cyn ffonio'r Uned Anafiadau Llygaid. Mae'r practis nad yw'n bractis IP yn parhau i fod yn gyfrifol am y claf a rhaid iddo wneud trefniadau amgen gyda phractis IPOS Brys arall, Uned Anafiadau Llygaid neu lwybr lleol arall.


5.5 Pan fydd Optometrydd IP WGOS 5 yn cytuno i dderbyn trosglwyddiad gofal, dylid gwneud y rhain gan ddefnyddio Set Ddata Genedlaethol WGOS a thempled atgyfeirio WGOS yn unol â'r canllawiau atgyfeirio lleol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Iechyd.


5.6 Mae gofal y claf yn cael ei drosglwyddo i'r optometrydd IP WGOS 5 pan dderbynnir yr atgyfeiriad. Os bydd yr Optometrydd IP WGOS 5 yn gwneud penderfyniad clinigol i atgyfeirio'r claf at y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty (HES) ar ôl ei archwilio, bydd yn gyfrifol am yr atgyfeiriad hwn.

5.7 Bydd canllawiau atgyfeirio lleol, gan gynnwys manylion am Optometryddion IP WGOS 5 a'u hargaeledd, yn cael eu cyhoeddi gan Fyrddau Iechyd.

5.8 Ni all optometryddion nad ydynt yn Rhagnodwyr Annibynnol neu CLOs gynnal apwyntiadau IPOS brys dilynol.

5.9 Gellir cynnal agweddau ar, neu gyfnodau gofal cyfan o WGOS 5 IPOS Brys o bell. Yr Optometrydd IP WGOS 5 sy'n cynnal yr archwiliad fydd yn penderfynu hyn. Mewn achosion o'r fath, nid oes ffi symudol oherwydd ni fyddai'r Optometrydd IP WGOS 5 wedi gadael y practis.




## 6.0 Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Llwybr – WGOS 5 Optometryddion IP

6.1 Bydd yr Optometrydd IP WGOS 5 yn derbyn neu'n gwrthod atgyfeiriadau yn unol â'r meini prawf cymhwysedd ac yn cynnig apwyntiad o fewn amserlen briodol gan ddefnyddio ei farn glinigol. Rhaid i hyn gynnwys atgyfeiriadau rhwng practisiau ac o fewn practis.

6.2 Bydd yr Optometrydd IP WGOS 5 yn cadw cofnod o'r broses brysbennu a'r cyngor a roddir i atgyfeirwyr/darpar atgyfeirwyr, ynghyd â'r dyddiad brysbennu ac, os caiff yr atgyfeiriad ei dderbyn, y dyddiad a argymhellir ar gyfer Asesiad Brys IPOS a'r dyddiad y bu'r claf yn bresennol. Mae hyn yn cynnwys cofnodi atgyfeiriadau IPOS brys posibl na ellir eu derbyn oherwydd nad oes argaeledd. Rhaid i gofnodion brysbennu fod ar gael i'r bwrdd iechyd ar gais.

6.3 Bydd Optometrydd IP WGOS 5 yn cymryd cyfrifoldeb am reoli atgyfeiriadau a dderbynnir gan gynnwys cysylltu â chleifion na wnaethant fynychu eu hapwyntiad(au) a hysbysu'r Optometrydd neu CLO a atgyfeiriodd a'r Meddyg Teulu fel y bo'n briodol.

6.4 Bydd Optometrydd IP WGOS 5 yn cynnal Asesiad Brys WGOS 5 IPOS sy'n briodol i symptomau'r claf a'r atgyfeiriad; yn rheoli a chynghori'r claf yn briodol; ac yn ysgrifennu presgripsiwn GIG pan fo angen clinigol. Mae hwn yn archwiliad a arweinir gan anghenion; felly dylai'r Optometrydd IP WGOS 5 gynnal profion sy'n berthnasol i anghenion y claf. Dylai'r Optometrydd IP ei gwneud yn glir i'r claf nad yw'n cynnal Prawf Golwg. Rhaid i'r Optometrydd IP WGOS 5 gadw cofnodion digonol o'r ymgynghoriad gan gynnwys rheoli'r claf, e.e. meddyginiaethau a ragnodwyd/atgyfeiriad, a chyngor a roddwyd i'r claf.

6.5 Ni fydd Optometrydd IP WGOS 5 yn ysgrifennu presgripsiwn GIG o dan y gwasanaeth hwn cyn iddo archwilio'r claf, i'r graddau y mae'n ei ystyried yn briodol.

6.6 Ni fydd yr Optometrydd IP WGOS 5 yn hawlio ffi o dan y gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion nad ydynt wedi cael archwiliad.

6.7 Gall yr Optometrydd IP hawlio ffi o dan y gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu harchwilio, ni waeth a roddwyd presgripsiwn GIG neu p'un a yw'r claf yn cael ei atgyfeirio wedi

hynny i Wasanaeth Llygaid yr Ysbyty.

6.8 Rhaid anfon adroddiad yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol ac ar ddiwedd y gofal at:

- yr Optometrydd neu'r CLO sy'n atgyfeirio
- meddyg teulu'r claf
- y claf
- darparwyr gofal perthnasol eraill i'r claf, e.e. ei Offthalmolegydd, lle bo'n briodol.

6.9 Rhaid i'r Optometrydd IP WGOS 5 hysbysu Meddyg Teulu'r claf am yr holl feddyginiaethau a ragnodwyd neu a newidiwyd (gan gynnwys pryd y cynghorir y claf i roi'r gorau i feddyginiaeth gyfredol a ragnodwyd yn rhywle arall e.e. gan feddyg teulu neu offthalmolegydd y claf).

6.10 Bydd Optometrydd IP WGOS 5 (neu Optometrydd IP WGOS 5 arall) yn cynnal apwyntiadau dilynol WGOS 5 IPOS Brys yn ôl yr angen i atal/lleihau atgyfeiriadau i rannau eraill o’r GIG, gan gynnwys gwasanaethau Offthalmoleg a meddyg teulu’r claf. Gellir hawlio ffi apwyntiad Dilynol ar gyfer pob apwyntiad Dilynol a gyflawnir gan yr Optometrydd IP WGOS 5. Ni all Optometryddion nad ydynt yn Rhagnodwyr Annibynnol gynnal apwyntiadau Dilynol IPOS Brys. Bydd cofnodion yr Optometrydd IP yn dogfennu'n glir y rhesymeg a'r angen clinigol am apwyntiadau dilynol at ddibenion archwilio.

6.11 Bydd yr Optometrydd IP WGOS 5 yn defnyddio barn glinigol i benderfynu pryd bydd y gofal wedi'i gwblhau.

6.12 Os bydd claf yn cael archwiliad arall o dan y gwasanaeth hwn, bydd yr Optometrydd IP WGOS 5 yn defnyddio barn glinigol i benderfynu a yw’r claf yn mynychu apwyntiad cyntaf mewn cyfnod gofal newydd neu apwyntiad dilynol yn ystod cyfnod gofal cyfredol. Bydd angen iddo gofnodi’r rhesymeg a'r rheidrwydd clinigol yng nghofnodion y claf at ddibenion archwilio.

6.13 Ni fydd y practis IP yn ceisio cadw claf a atgyfeiriwyd ar gyfer WGOS 5 IPOS Brys ar gyfer gofal llygaid arall.

6.14 Bydd optometryddion IP WGOS 5 sy’n defnyddio padiau presgripsiwn y GIG yn cael eu monitro gan grwpiau defnyddio meddyginiaethau o fewn y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cyffurlyfrau rhagnodi yn cael eu dilyn. Byddant yn destun yr un archwiliad â gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol eraill.

6.15 Ni chaiff optometryddion IP WGOS 5 ragnodi cyffuriau, meddyginiaethau a theclynnau y mae eu cost neu ansawdd mewn perthynas ag unrhyw glaf oherwydd cymeriad y cyffur, y feddyginiaeth neu’r teclyn dan sylw yn fwy na’r hyn a oedd yn rhesymol angenrheidiol ar gyfer trin y claf hwnnw’n briodol.

6.16 Bydd Bwrdd Iechyd yn ceisio barn y Pwyllgor Optometrig Rhanbarthol ar gyfer ei ardal wrth ystyried a yw Optometrydd IP WGOS 5 wedi torri rhwymedigaethau o dan baragraff 6.15.

6.17 Bydd cofnodion yn destun archwiliadau arferol at ddibenion dilysu ar ôl talu ac archwiliad clinigol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a’r Bwrdd Iechyd perthnasol.

6.18 Bydd cyflawniad Optometryddion WGOS 5 yn y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro drwy ddilysu ar ôl talu ac archwiliad clinigol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a’r Bwrdd Iechyd perthnasol a all arfer ei bwerau presennol o dan reoliadau Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol yn ôl yr angen mewn achosion o gyflawniad gwael.

## 7.0 Gweithdrefn Weithredu Safonol Llwybr - cadw cofnodion a thaliadau

7.1 Dylid cadw cofnodion WGOS 5 Brys yn unol â'r llawlyfr hwn a chanllawiau Coleg yr Optometryddion. Yn benodol:

7.1.1 rhaid i gyfnodau gofal WGOS 5 IPOS brys fod yn amlwg yng nghofnod y claf, e.e. ar dudalen/ sgrin ar wahân i gyfnodau gofal eraill ac wedi'u labelu gydag "IPOS Brys";

7.1.2 rhaid cofnodi manylion yr Optometrydd sy'n atgyfeirio neu'r atgyfeiriad atoch chi;

7.1.3 rhaid cadw copïau o lythyrau atgyfeirio i mewn ac allan o'r gwasanaeth;

7.1.4 rhaid cadw copïau o adroddiadau; a

7.1.5 rhaid cofnodi rhif cyfresol y presgripsiynau WP10 a roddwyd (neu a ddilëwyd) yng nghofnod y claf .

7.2 Bydd taliadau ar gyfer practisiau IP sy'n darparu Asesiadau Brys WGOS 5 IPOS ac Apwyntiadau Dilynol yn cael eu hawlio drwy gyflwyno manylion ar-lein i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

7.3 Gwneir hawliadau ar-lein ar ddiwedd yr ymgynghoriad gan yr Optometrydd IP WGOS 5, neu o fewn 28 diwrnod gan aelod o staff y Contractwr gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Optometrydd IP WGOS 5. Bydd gan bob practis IP system gyflwyno electronig unigryw, wedi'i hwyluso gan PCGC.

7.4 Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn gwneud taliadau WGOS 5 ar ran Byrddau Iechyd.

7.5 Mae dyddiadau terfyn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer cyflwyno hawliadau yn berthnasol i'r gwasanaeth hwn. Bydd y Bwrdd Iechyd yn dewis p'un ai i dalu hawliadau hwyr ai peidio.

7.6 Bydd hawliadau a wneir gan Gontractwyr a restrir ar gyfer gweithgarwch o dan WGOS 5 IPOS Brys yn cael eu derbyn gyda'r set ddata a amlinellir yn y tabl isod:

| *Beth* | *Pam mae'n angenrheidiol?* |
|---|---|
| Cyflawnydd Rhagnodi Annibynnol (IP) | Prosesu taliadau: i gadarnhau bod unigolyn cymwys sydd wedi'i restru ar gyfer WGOS 5 IPOS Brys wedi cynnal y cyfnod gofal |
| Cyfeirnod unigryw y claf - dynodydd unigryw'r contractwr ar gyfer y claf hwn. | Dilysu ar ôl talu (PPV): i alluogi'r contractwr a'r tîm PPV i gysylltu'r hawliad â chofnod clinigol y claf |
| Enw a chyfeiriad y claf | Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion (PREMs): i weinyddu PREMs yn ganolog heb ymglymiad y practis<br>Monitro gwasanaeth lefel uchel: mynediad |
| Dyddiad geni'r claf | Monitro gwasanaeth lefel uchel: mynediad |
| Ethnigrwydd y claf | Monitro gwasanaeth lefel uchel: mynediad |
| Cymhwysedd claf | Prosesu taliadau: i gadarnhau bod angen gwasanaeth WGOS 5 IPOS Brys ar y claf mewn meddygfa neu fel gwasanaeth symudol |
| Math o apwyntiad | Gwerthuso gwasanaethau |
| Dyddiad y cyswllt – y dyddiad y cysylltodd y claf neu'r atgyfeiriwr â'r practis neu'r dyddiad y gwnaed atgyfeiriad o fewn y practis | Monitro gwasanaeth lefel uchel: amseroedd aros |
| Dyddiad y cynnig – dyddiad yr apwyntiad a gynigwyd i'r claf | Monitro gwasanaeth lefel uchel: amseroedd aros |
| Rhif Dilyniant ar gyfer Apwyntiadau Dilynol - Os yw'n berthnasol, y rhif i nodi p'un ai hwn yw'r apwyntiad dilynol cyntaf neu apwyntiad dilynol diweddarach | Gwerthuso'r gwasanaeth: nifer yr apwyntiadau dilynol; cleifion a ryddhawyd; ac atgyfeiriadau allan o'r gwasanaeth. |
| Ar gyfer Apwyntiadau Dilynol: Dyddiad y cyfnod gofal blaenorol - Os yw'n berthnasol, dyddiad y cyfnod gofal brys WGOS 5 IPOS y mae'r cyfnod gofal hwn yn ei ddilyn | Monitro gwasanaeth lefel uchel: amseroedd aros |
| Ar gyfer Apwyntiadau Dilynol: y dyddiad y disgwylir yr apwyntiad dilynol - y dyddiad a gynlluniwyd ar gyfer yr apwyntiad dilynol | Monitro gwasanaeth lefel uchel: amseroedd aros |
| Dyddiad yr apwyntiad – dyddiad y cyfnod gofal | Monitro gwasanaeth lefel uchel: amseroedd aros |
| Canlyniad – Apwyntiad Dilynol WGOS 5 IPOS BrysArfaethedig neu ryddhau'r claf neu atgyfeirio | Gwerthuso gwasanaeth: nifer yr apwyntiadau dilynol; nifer y cleifion a ryddhawyd; ac atgyfeiriadau allan o'r gwasanaeth. |
| Dyddiad apwyntiad dilynol (os cynlluniwyd) - dyddiad yr apwyntiad dilynol arfaethedig yn yr (un) gwasanaeth | Monitro gwasanaeth lefel uchel: amseroedd aros |